TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllaw Cyflwyno

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru. Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Nodau'r Canllaw Cyflwyno ....3
Strwythur y cymhwyster ....3
Uned 1 .... 3
Uned 2 .... 3
Uned 3 .... 4
Uned 4 .... 4
Crynodeb o'r asesu ....5
Amcanion Asesu ....7
Uned 1 .... 7
Uned 2 .... 7
Uned 3 .... 7
Uned 4 .... 7
Manyleb a Phecyn Asesu ....8
Deall yr ymhelaethiad yn y fanyleb .... 8
Bonion y fanyleb .... 8
Geiriau gorchymyn.... 9
Eitemau, Ffynonellau a Dehongliadau .... 11
Cynlluniau Marcio ....12
Dyddiadau Pwysig ....14

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Dyddiadau pwysig wedi'u diweddaru. | 14 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Nodau'r Canllaw Cyflwyno

Nod y Canllaw Cyflwyno yw rhoi trosolwg o'r cymhwyster a cheisio helpu athrawon i ddeall sut rydym yn asesu'r cymhwyster TGAU. Bydd yn cynnig cyflwyniad i'r fanyleb, trosolwg o'r asesu, a bydd yn cefnogi athrawon i ddeall yn well sut i baratoi eu dysgwyr ar gyfer asesu'r gwahanol unedau. Ceir rhagor o wybodaeth am bob uned yng nghanllawiau unigol yr unedau.

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned:

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoli** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

Mae pob uned yn orfodol. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cwblhau Uned 4 yn ystod blwyddyn olaf y cwrs fyddai fwyaf priodol gan fod y dysgwyr yn ailedrych ar gyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn un o'r unedau cynharach. Byddai hyn yn caniatáu i ddysgwyr roi eu dealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol a'r sgiliau dadansoddi a gwerthuso y maen nhw wedi'u datblygu drwy gydol Unedau 1 a 3 ar waith. Byddai hefyd yn caniatáu i ddysgwyr adeiladu ar y dulliau a'r arferion a ddatblygwyd wrth gynnal ymholiad hanesyddol yn Uned 2.

### Uned 1

Pwrpas yr uned hon yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

### Uned 2

Pwrpas yr uned hon yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Uned 3

Pwrpas yr uned hon yw cynnig trosolwg o gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol.

## Uned 4

Pwrpas yr uned hon yw rhoi cipolwg ar brofiadau gwahanol pobl drwy astudio digwyddiadau â thema benodol dros gyfnod amser estynedig. Mae profiadau'r bobl sy'n cael eu hastudio wedi'u cyfyngu i ynysoedd Prydain Fawr ac Iwerddon.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:
- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Crynodeb o'r asesu

**Uned 1: Astudiaeth fanwl o hanes Cymru**
***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**

**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**Yr Oesoedd Canol**
**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog y Deheubarth tua 1132–1197
**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–1416
**Modern Cynnar**
**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 - tua 1547
**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–tua 1660
**Modern**
**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831 - tua 1891
**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914–tua 1959

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

**Uned 2: Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:* 3 awr**
**20% o'r cymhwyster**

**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**
**2.1** Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol
**2.2** Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol
**Modern Cynnar**
**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar wladychiaeth fodern gynnar
**2.4** Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar
**Modern**
**2.5** Y Drydedd Reich tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern
**2.6** Afghanistan tua 1979 – tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**
**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.

**Yr Oesoedd Canol**
**3.1** Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066
**3.2** Y Croesgadau, tua 1095 – tua 1291
**Modern Cynnar**
**3.3** Ymerodraeth Songhai, tua 1464 – tua 1591
**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526 – tua 1707
**Modern**
**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953
**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 – tua 1980

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

**Uned 4: Cymdeithas sy'n newid**
***Asesiad di-arholiad*: 4 awr 15 munud**
**20% o'r cymhwyster**
**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio digwyddiadau â thema benodol o fewn cyfnod parhaus o tua 75–tua 100 mlynedd o hanes. Rhaid i'r digwyddiadau a astudiwyd fod yn ddigwyddiadau o ynysoedd Prydain Fawr a/neu Iwerddon.

Ar gyfer yr aseiniad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros y cyfnod.

Ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer asesiad di-arholiad ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau a ddewisir ar gyfer yr arholiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Amcanion Asesu

## Uned 1

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 10% | 10% | 10% | - | 30% |

## Uned 2

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| - | 5% | 5% | 10% | 20% |

## Uned 3

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 10% | 10% | 10% | - | 30% |

## Uned 4

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| - | 5% | 5% | 10% | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Manyleb a Phecyn Asesu

Pan fyddwn yn datblygu cymwysterau newydd, rydym yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol:

- Manyleb – mae’r ddogfen hon yn ymdrin â'r holl wybodaeth a sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu gwybod erbyn diwedd eu cwrs
- Pecyn Asesu – mae hwn yn cynnwys y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (SAMs) h.y.: papurau arholiad enghreifftiol a thasgau asesiadau di-arholiad enghreifftiol, rheolaethau perthnasol ar gyfer yr asesiad di-arholiad, a chynlluniau marcio.

Mae'r canllaw yn adeiladu ar wybodaeth sydd yn y fanyleb a'r pecyn asesu i helpu i wella eich dealltwriaeth o'r dogfennau hynny.

### Deall yr  ymhelaethiad yn y fanyleb

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- bonion y fanyleb
- beth yw ystyr bonion y fanyleb.

### Bonion y fanyleb

Pan fyddwch chi'n edrych drwy'r fanyleb, byddwch yn sylwi bod y geiriad yn y golofn ymhelaethiad yn amrywio cyn y rhestr o gynnwys y mae angen i ddysgwyr ei wybod; yr enw ar hwn yw bonyn:

**Bonyn y Fanyleb**

| **Ymhelaethu** |
|---|
| Dylai dysgwyr wneud y canlynol:<br>• **deall** problemau cynyddol rhwng Rhys a'r Brenin Richard I o Loegr<br>• **bod yn ymwybodol** o arwyddocâd concwest a rheolaeth y Normaniaid, hyd a lled llwyddiant y Normaniaid wrth orchfygu Cymru a chreu'r Mers. |

Defnyddir pob bonyn am reswm ychydig yn wahanol:

| Bonyn y Fanyleb | Pan gaiff ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o** | Pan na fydd angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys penodol yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau canllawiau addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn. |
| **Dylai dysgwyr ddeall** | Pan fo gofyn i ddysgwyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol. |
| **Dylai dysgwyr allu** | Pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar gyfer deunydd ffynhonnell neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geiriau gorchymyn

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- beth yw geiriau gorchymyn
- beth yw ystyr pob gair gorchymyn
- beth mae pob gair gorchymyn yn ei asesu.

Geiriau gorchymyn yw'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir mewn asesiadau sy'n dweud wrth ddysgwyr beth yw disgwyliadau'r cwestiwn neu'r dasg.

(a) Esboniwch pam roedd gwrthdaro yn Ne Cymru rhwng 1146 a 1170.

**Gair gorchymyn**

Nid yw'r tablau canlynol yn gynhwysfawr, ond byddant yn rhoi syniad da i chi o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddiwn fel arfer:

| **Geiriau gorchymyn ar gyfer galw i gof uniongyrchol** | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Diffiniwch | Rhoi ystyr penodol term. |
| Disgrifiwch | Nodi nodweddion arbennig a rhoi manylion disgrifiadol, ffeithiol.<br><br>Dyma un o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddir amlaf. Os bydd angen esboniad, yna defnyddiwch ddau orchymyn: 'disgrifiwch ac esboniwch'. |
| Llusgo a Gollwng | Symud i ran arall o sgrin gan ddefnyddio llygoden neu ddyfais debyg. |
| Rhoi / Rhowch | Cael ateb drwy gofio pethau. |
| Rhowch gylch o amgylch/Nodwch/Dewiswch | Amlygu rywbeth a'i enwi o nifer o bosibiliadau. |
| Labelwch | Dynodi gan ddefnyddio enw. |
| Rhestrwch | Rhoi'r ffactorau (heb esbonio nac ymhelaethu). |
| Enwch | Nodi neu wneud rhestr. |
| Amlinellwch | Rhoi prif nodweddion. |
| Trefnwch | Trefnu'n systematig. |
| Nodwch | Mynegi'n glir. |

| **Geiriau gorchymyn ar gyfer cymhwyso/dangos sgiliau** | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Eglurwch (*clarify*) | Gwneud (syniad neu sefyllfa) yn glir drwy ei ddisgrifio'n fwy manwl. |
| Cwblhewch | Ychwanegu eitemau/gwybodaeth angenrheidiol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cyfansoddwch | Ysgrifennu neu greu. |
| Dangoswch | Rhoi enghreifftiau, a disgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau. |
| Trafodwch | Cyflwyno pwyntiau allweddol. |
| Esboniwch | Rhoi rhesymau neu achosion. Dangos dealltwriaeth o sut a pham mae rhywbeth wedi digwydd. |
| Archwiliwch | Ymchwilio heb unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â'r canlyniad. |
| Ymchwiliwch | Gwneud gwaith ymchwil neu gynnal astudiaeth i bwnc neu broblem. |
| Dewiswch | Gwneud dewis priodol o ystod o opsiynau. |
| Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl. |
| Crynhowch | Rhoi fersiwn wedi'i fyrhau o rywbeth, gan ddatgan ei brif bwyntiau heb fanylion. |
| Defnyddiwch | Cymhwyso'r wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol. Defnyddio, cymryd neu ddal rhywbeth at ddiben. |

| **Geiriau gorchymyn ar gyfer cyfosod a gwerthuso** | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Dadansoddwch | Gwahanu gwybodaeth yn gydrannau a nodi eu nodweddion. |
| Cyflwynwch ddadl | Cyflwyno achos rhesymegol. |
| Aseswch | Cwestiwn gwerthuso yw hwn, sy'n golygu bod sawl esboniad/dadl/canlyniad posibl.<br>Ffurfio farn ar sail gwybodaeth.<br>Ffurfio barn am ansawdd neu werth rhywbeth. |
| Cymharwch | Nodi **tebygrwyddau.** |
| Ystyriwch | Darllen y wybodaeth a roddwyd ac ymateb iddi. |
| Cyferbynnwch | Nodi **gwahaniaethau yn unig.** |
| Trafodwch | Archwilio mater yn fanwl mewn modd strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau. |
| Gwerthuswch | Barnu o dystiolaeth sydd ar gael. |
| Archwiliwch | Ymchwilio'n ofalus. |
| Rhowch farn | Ffurfio barn / gwneud penderfyniad yn feirniadol |
| Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth i ategu achos. |
| Adfyfyriwch | Ystyried syniadau, profiadau, sefyllfa neu fater. |
| Adolygwch | Ystyried rhywbeth gyda'r bwriad o wneud newidiadau os oes angen. |
| Awgrymwch | Rhowch reswm neu ddull gweithredu posibl. |
| Cefnogwch | Cefnogi neu eirioli. |
| Cyfosodwch | Cyfuno gwybodaeth, gwrthrychau neu syniadau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Eitemau, Ffynonellau a Dehongliadau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Eitemau | Yna **eitemau** fydd y term a ddefnyddir mewn asesiadau i labelu darnau penodol o gynnwys, gan gwmpasu ffynonellau cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |
| Ffynonellau | Mae deunydd ffynhonnell yn gyfoes i'r cyfnod. |
| Dehongliadau | Caiff deunydd dehongli ei greu ar ôl y cyfnod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynlluniau Marcio

Mae cynlluniau marcio a/neu feini prawf asesu yn profi'r amcanion dysgu a fwriedir ar gyfer uned. Maent yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau (a'r agwedd o bosibl) y disgwylir i ymgeisydd eu dangos yn eu hymatebion, ac yna'n cael eu defnyddio wrth farcio'r gwaith.

**Cynllun marcio yn seiliedig ar Amcanion:**
Ar gyfer cwestiynau atebion byr iawn sy'n gofyn am un ymateb cywir.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | (a) | Pa gastell gafodd ei gipio gan y Deheubarth yn 1145? | | | | |
| | | Rhowch **un** marc am:<br>• **Caerfyrddin.** | 1 | | | 1 |

**Cynlluniau marcio seiliedig ar lefelau:**
Ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion estynedig

| Cwestiwn 2 | | |
|---|---|---|
| Esboniwch pam roedd gwrthdaro yn Ne Cymru rhwng 1146 ac 1170. **[10]** | | |
| **Cynnwys Dangosol** | | |
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>• Roedd y Normaniaid wedi cymryd y Deheubarth oddi ar Rhys ap Tewdwr ym 1093 ac roedd ei deulu wedi bod yn ymladd dros ei dychwelyd ers 1116<br>• Ar farwolaeth Gruffudd ap Rhys, roedd ei blant – gan gynnwys Rhys ap Gruffudd – wedi parhau i frwydro dros ddychwelyd y diriogaeth hon<br>• Nid oedd gan yr arglwyddi Normanaidd gefnogaeth brenin cryf yn Lloegr gan fod ymladd dros orsedd Lloegr hyd at 1154<br>• Roedd cystadleuaeth barhaus â Gwynedd am diriogaeth gan fod Owain Gwynedd hefyd yn manteisio ar wendidau'r Normaniaid i ehangu ei diriogaeth<br>• Arweiniodd esgyniad Harri VII i'r orsedd yn Lloegr yn 1154 at ymosodiadau o'r newydd ar diriogaethau'r rheolwyr Cymreig, gan gynnwys yr ymosodiad ar Ddeheubarth yn 1163.<br>• Ym 1163 ffurfiodd Rhys ap Gruffudd gynghrair yn erbyn y Saeson gydag Owain Gwynedd fel rhan o wrthryfel y Cymry yn erbyn ymosodiadau gan y Saeson a arweiniodd at ymgyrchoedd llwyddiannus i'r Cymry a heddwch gyda Harri II erbyn 1170. | | |
| **Band** | **AA1** | **AA2** |
| **5** | **5 marc**<br>• Lefel gynhwysfawr o wybodaeth berthnasol<br>• Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r mater yn y cwestiwn. | **5 marc**<br>• Cymhwyso cynhwysfawr o wybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant i ddadansoddi'r cwestiwn gosod<br>• Mynd i'r afael yn gynhwysfawr â'r cysyniad hanesyddol perthnasol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td>4</td><td>4 marc<ul><li>Lefel dda o wybodaeth berthnasol</li><li>Dealltwriaeth dda o’r mater yn y cwestiwn.</li></ul></td><td>4 marc<ul><li>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda er mwyn ateb y cwestiwn gosod</li><li>Mynd i'r afael yn dda â'r cysyniad hanesyddol perthnasol</li></ul></td></tr>
<tr><td>3</td><td>3 marc<ul><li>Lefel foddhaol o wybodaeth berthnasol</li><li>Dealltwriaeth foddhaol o'r mater yn y cwestiwn.</li></ul></td><td>3 marc<ul><li>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn foddhaol er mwyn ateb y cwestiwn gosod</li><li>Mynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol perthnasol yn foddhaol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2</td><td>2 farc<ul><li>Gwybodaeth berthnasol gyfyngedig</li><li>Dealltwriaeth gyfyngedig o'r mater yn y cwestiwn.</li></ul></td><td>2 farc<ul><li>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd cyfyngedig er mwyn ateb y cwestiwn gosod</li><li>Ymdrech gyfyngedig i ymdrin â’r cysyniad hanesyddol perthnasol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>1</td><td>1 marc<ul><li>Ychydig iawn o wybodaeth berthnasol</li><li>Ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r mater yn y cwestiwn.</li></ul></td><td>1 marc<ul><li>Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn ateb y cwestiwn gosod.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="3">0 marc<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| Addysgu CBAC TGAU Hanes am y tro cyntaf | Medi 2026 |
| Rhyddhau Uned 2 am y tro cyntaf | Ionawr 2027 (Eitemau asesu wedi'u rhyddhau ymlaen llaw ym mis Mehefin 2026) |
| Asesu Uned 1 am y tro cyntaf | Haf 2027 |
| Asesu Uned 3 am y tro cyntaf | Haf 2027 |
| Cyflwyno gwaith Uned 2 am y tro cyntaf | Ionawr-Mawrth 2027 |
| Rhyddhau Uned 4 am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Cyflwyno gwaith Uned 4 am y tro cyntaf | Haf 2028 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2028 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025